

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7/1/2020

Presennol: Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2075 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn E Jones, Karl Jones a Lindsey Ellis-Edwards. Rhannodd y Clerc llythyr ymddiswyddiad Lindsey Ellis-Edwards o'r Cyngor a dywedodd y byddai'n cymryd y camau priodol ar gyfer llenwi'r sedd.

2076 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2077 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/12/19.

2078 Materion o'r Cofnodion:

2069: Nodwyd derbyn cyngor cyfreithiol ar waith yn y fynwent a chopi o'r ddeddf sydd yn caniatáu hyn.

2073 i Diogelwch ar Lwybr y Cei: adroddwyd fod Liz Haynes o Gyngor Gwynedd yn trefnu i wneud gwaith ar y mwsogl. Hefyd bydd yn archwilio'r gwreiddiau a cheisio cael arian i'w codi. Bydd hefyd yn chwilio am grantiau i wneud gwaith sylfaenol ar y llwybr ar sail iechyd a diogelwch y cyhoedd. Roedd yn awyddus i dynnu sylw trigolion at Lwybr Swch y Coed sydd wedi ei ail-agor yn ddiweddar. Mae'n llwybr diddorol ac mae olion talwrn wrth goed Bryn Coch.

2079 Cyngor Gwynedd: Dywedodd Alan Jones Evans fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod polion i rybuddio gyrwyr o'r cwteri yn ardal y Deildre, a bydd y swyddogion yn monitro'r cwteri o gwmpas cwm Penantlliw. Gwnaed y sylw fod trwsio ffordd ar ôl i ddŵr lifo'n rheolaidd dros ffordd yn ddrutach na glanhau cwteri ac felly bod glanhau yn rheolaidd yn weithred cost-effeithiol. Mae'r Cynghorydd hefyd wedi tynnu sylw'r Swyddogion at yr angen i wella wyneb y ffordd rhwng pont Twrch a'r Groesffordd. Dywedodd er gwybodaeth fod cyngor ar gyfer difa pla i'w gael am ddim, er bod angen talu ffi o £50 am y gwasanaeth gwaredu pla. Diolchwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans am ei adroddiad a'i waith.

2080 Noson Goffi'r Cyngor: Cytunwyd i gynnal y Noson Goffi ar Nos Fawrth 18 Chwefror am 7.00pm gyda Paul Edwards y Consuriwr fel Gŵr Gwadd. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda Sefydliad y Merched a Merched y Wawr parthed y lluniaeth.

2081 Materion Eiddo'r Cyngor: Cytunodd Huw Antur i gydweithio gyda Lindsey Ellis-Edwards i geisio cael grant i uwchraddio'r toiledau. Derbyniwyd sawl cwyn am oglau drwg mewn un rhan o'r adeilad. Mae'n bosib fod problem yn y garthffosiaeth a chytunodd Arwel Lloyd

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Jones i drafod gyda Mrs Eleri Pugh, Yr Eagles, sydd yn garedig iawn yn ariannu'r gwaith glanhau.

2081 Y Fynwent: Cytunwyd i wneud trefniadau i gyfarfod ag un gweithiwr tir yn y fynwent er mwyn cael barn a syniad o beth sy'n bosib o fewn y canllawiau. Bydd Swyddog y Fynwent yn trefnu'r cyfarfod hwn yn fuan.

2082 Materion ariannol: Cytunwyd i dalu anfonebau, yn cynnwys Cyflog y Clerc a thaliad CThEM; Batris i'r Goeden Dolig - £6.98; Coeden Dolig -£45.00; Arwydd 'Nadolig Llawn' - £12.50; Partneriaeth Penllyn - £346.50.

2083 Materion lleol: Cytunodd Alan Jones Evans i dynnu sylw swyddogion at yr angen i frwsio'r pafin a'r ffordd o bont y lein at y Twrch.

Dyweddodd Beryl Hughes Griffiths fod trefniadau canmlwyddiant marwolaeth Syr O M Edwards yn mynd yn eu blaenau. Bu mewn cysylltiad â Pharc Cenedlaethol Eryri ac maent yn ystyried gwneud "Taith y Mis" o amgylch yr ardal. O M Edwards ydyw testun prif draethawd Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn eleni.

Adroddodd Beryl Hughes Griffiths ei bod wedi cychwyn ar dudalennau'r wefan i gefnogi'r Paneli Gwybodaeth.

2084 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd Huw Antur am lwyddiant cais i "Arfor" i uwchraddio llawr uchaf Canolfan Henblas; bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan. Mae'r gwaith i ymgysylltu gyda'r gymuned yn mynd yn ei flaen ac mae cyd-weithio agos gyda chynghorau disgyblion Ysgol Godre'r Berwyn. Cytunodd y Cynghorwyr y byddai croeso cynnes i'r disgyblion – ac aelodau'r Clwb Ffermwyr a'r Aelwyd – fynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned.

2085 Gohebiaeth:

Llywodraeth: Ymgynghoriad ar newid i ffioedd ceisiadau cynllunio. Cafwyd trafodaeth ac roedd y farn yn gytûn y gall y cynigion filwrio yn erbyn gwasanaeth rhad ac effeithiol. Cytunodd y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor.

Cais am nawdd i fynd ar daith i Batagonia: nid oes gan y Cyngor y pŵer i roi cyfraniadau i unigolion.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 4/2/20 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref

Amser gorffen: 9.00pm